Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Older People's Commissioner for Wales

03442 640 670
Rydym yn croesawu galwadau yn Gymraeg

Adeiladau Cambrian
Sqwâr Mount Stuart
Caerdydd CF10 5FL

Cambrian Buildings
Mount Stuart Square
Cardiff CF10 5FL

John Griffiths AS
Cadeirydd, Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

17 Medi 2021

Annwyl Gadeirydd,

Ynghylch: Blaenoriaethau ar gyfer y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai

Diolch am y cyfle hwn i rannu fy marn am flaenoriaethau'r Pwyllgor ar gyfer y Chweched Senedd a pha feysydd y bydd angen eu hystyried yn ystod y 12 mis nesaf, gan gynnwys effaith Covid-19 a symud ymlaen i adferiad.

Pandemig Covid-19

Mae pandemig Covid-19 a'r cyfyngiadau angenrheidiol i gyfyngu ar ei ledaeniad wedi cael effaith sylweddol ac anghymesur ar bobl hŷn. Mae'r effaith hon yn cael ei theimlo gan y rheini sydd wedi colli eu bywyd yn anffodus o ganlyniad i'r feirws a'r rheini sy'n galaru drostynt, yn ogystal â'r rheini y mae'r cyfyngiadau a'r newidiadau i'w bywydau bob dydd wedi effeithio arnynt yn feddyliol ac yn gorfforol, gan gynnwys y rheini sy'n byw gyda symptomau parhaus Covid-19 a'r rheini y mae eu gofal neu eu triniaeth wedi cael eu dal yn ôl oherwydd y pandemig.

Mae hi'n hanfodol bod yr effaith hon yn cael ei chydnabod yn briodol ar draws llywodraeth a'n gwasanaethau cyhoeddus i sicrhau bod cefnogaeth a gwasanaethau adsefydlu priodol ar gael i'r rheini sydd eu hangen. Bydd miloedd lawer o bobl hŷn wedi dilyn rheolau Llywodraeth Cymru yn ystod y 18 mis diwethaf yn ddiwyd, a byddant yn teimlo'r effaith ar eu hiechyd corfforol a meddyliol o ganlyniad i beidio â chael cyswllt priodol â'u teuluoedd a'u ffrindiau, peidio â gallu mynd allan yn eu cymunedau a'r ofn o'r hyn y gallai dal y feirws ei olygu iddyn nhw.

Y ffordd at adferiad

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn ystod haf 2020, dechreuodd Llywodraeth Cymru raglen waith ar adfer ac ailadeiladu ein cymdeithas yn dilyn y pandemig. Cydnabuwyd yn briodol ar y pryd bod yr anghydraddoldebau presennol wedi cael eu gwaethygu yn sgil y pandemig a bod angen newid sylfaenol wrth i ni symud ymlaen fel cymdeithas.

Mae'r naratif hwn ar adfer ac ailadeiladu wedi lleihau yn ystod y misoedd diwethaf gan fod y ffocws wedi troi fwyfwy at ddelio â lledaeniad y feirws a chyflwyno'r brechlyn i'r rheini sydd fwyaf mewn perygl.

Rhaid inni beidio â cholli'r cyfle dros y deuddeg mis nesaf i ganolbwyntio eto ar y naratif hwnnw wrth inni edrych ar sut y gall Llywodraeth Cymru, drwy weithio gyda llywodraeth leol, ddefnyddio'r holl lwybrau sydd ar gael i adeiladu cymunedau sy'n ystyriol o oedran ledled Cymru, a fydd hefyd yn golygu gwella gwasanaethau ac amgylcheddau lleol.

Yn fy adroddiad *'Gadael neb ar ôl'*, a gyhoeddais ym mis Awst 2020, nodais gyfres o gamau gweithredu tymor byr a thymor hirach sy'n ofynnol i sicrhau adferiad ystyriol o oedran ar ôl Covid-19 sy'n rhoi pobl hŷn wrth galon yr adferiad ac sy'n gwerthfawrogi ac yn cynyddu'r cyfraniad y mae pobl hŷn yn ei wneud i'n cymunedau ac i'n heconomi[1].

Yn yr adroddiad, roeddwn yn galw ar awdurdodau lleol i weithio gyda phobl hŷn i gynnal archwiliadau oed-gyfeillgar yn eu cymunedau lleol, a pharhau i weithio i gael eu cydnabod gan Sefydliad Iechyd y Byd fel aelodau o'r rhwydwaith cymunedau oed-gyfeillgar. Rwyf yn croesawu'r ffaith bod hyn hefyd yn cael ei adlewyrchu yn y *Strategaeth ar gyfer Cymdeithas sy'n Heneiddio: Cymru o blaid pobl hŷn*[2] a gyhoeddir cyn bo hir gan Lywodraeth Cymru.

Cyn y pandemig, roedd rhai awdurdodau lleol wedi dechrau gweithio gyda fy nhîm ar y siwrnai i gael y gydnabyddiaeth honno, ac rwy'n falch iawn bod nifer cynyddol o awdurdodau nawr yn ymgysylltu ac yn gweld hyn fel ffordd gadarnhaol o gryfhau ein cymunedau.

Yn bwysicaf oll, mae'r ymwybyddiaeth gynyddol bod angen cydweithredu a chydweithio ar draws nifer o feysydd polisi llywodraeth leol a llywodraeth ganolog sy'n effeithio ar fywydau unigolion wrth geisio cefnogi ein cymunedau i ddod yn llefydd lle gall pawb heneiddio'n dda, cynnal eu hannibyniaeth, eu hurddas a'u llesiant.

Dim ond drwy gydweithio ar draws meysydd fel tai, trafnidiaeth, cymorth cymunedol a gwasanaethau iechyd y gellir creu cynlluniau ar y cyd ar gyfer cymunedau oed-gyfeillgar. Rhaid cefnogi'r cymunedau eu hunain i chwarae rhan allweddol yn hyn, gyda chyfathrebu a gwybodaeth glir am ddatblygiadau a'r gwasanaethau a'r gweithgareddau sydd ar gael sy'n angenrheidiol i alluogi cyfranogiad, cyd-greu a mynediad.

Yn yr un modd, gall cynllunio a datblygu mannau gwyrdd a seilwaith cymunedol newydd, gan gynnwys sicrhau bod toiledau cyhoeddus ar gael wella cyfleoedd i fynd allan, hybu cyfranogiad cymdeithasol, gwella cydlyniant cymunedol a hwyluso gweithgareddau sy'n

pontio'r cenedlaethau. Mae'r rhain hefyd yn adlewyrchu'r egwyddorion ehangach a amlinellir ym meysydd cymunedau oed-gyfeillgar Sefydliad Iechyd y Byd.[3]

Gallai'r pwyllgor ystyried adolygu argaeledd toiledau cyhoeddus, yn enwedig o ystyried profiad y pandemig, lle'r oedd cynlluniau lleol blaenorol wedi dibynnu'n ormodol ar gael defnyddio toiledau mewn adeiladau cyhoeddus, rhywbeth a ddaeth yn amhosibl wrth i wasanaethau gau. Gallai'r Pwyllgor graffu ar lwyddiant neu fethiant y strategaethau toiledau lleol hynny ac ystyried a oes angen camau cryfach.

Rwyf eisoes wedi galw am ailystyried Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) a gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru i sicrhau ac i gynnal digon o doiledau i'r cyhoedd eu defnyddio ledled Cymru.

Bydd angen i awdurdodau lleol sy'n gweithio i ailadeiladu a chryfhau ein cymunedau hefyd ailfeddwl am bwrpas rhai o ganol eu trefi a bydd gwaith Llywodraeth Cymru ar *Drawsnewid Trefi* yn rhan annatod o'r drafodaeth honno.[4] Mae angen i'r rhaglen gydnabod pwysigrwydd cymunedau oed-gyfeillgar fel rhan o'r trawsnewidiad hwn ac edrych ar sut gall canol trefi yn eu tro gefnogi pobl hŷn i ailgysylltu â'u cymunedau.

Rwy'n gobeithio bod y sylwadau hyn yn ddefnyddiol. Os gallaf fod o unrhyw gymorth pellach, mae croeso i chi gysylltu â George Jones, fy Arweinydd Gwasanaethau Cymunedol a Chynhwysiant, ar 03442 640 670 neu drwy anfon e-bost at george.jones@olderpeoplewales.com

Yn gywir

Heléna Herklots CBE
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

---

[1] Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru (2020) *Gadael neb ar ôl: Camau gweithredu ar gyfer adferiad o blaid pobl hŷn* Ar gael yn: https://www.olderpeoplewales.com/cy/Publications/pub-story/20-08-18/Leave_no-one_behind_Action_for_an_age-friendly_recovery.aspx [Agorwyd 24 Awst 2021]

[2] Llywodraeth Cymru (2020) *Strategaeth ar gyfer Cymdeithas sy'n Heneiddio:Cymru o blaid pobl hŷn* Ar gael yn: https://llyw.cymru/strategaeth-ar-gyfer-cymdeithas-syn-heneiddio-cymru-o-blaid-pobl-hyn [Agorwyd 24 Awst 2021].

[3] Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru (2019) *Beth sy'n gwneud cymuned yn un oed-gyfeillgar?.* Ar gael yn: https://www.olderpeoplewales.com/cy/ageing-well/afcs/what-makes-a-community-age-friendly.aspx [Agorwyd 24 Awst 2021]

[4] Llywodraeth Cymru (2020) *Trawsnewid Trefi: cymorth i wella canol trefi.* Ar gael yn: https://llyw.cymru/cymorth-i-wella-canol-trefi [Agorwyd 24 Awst 2021]